

Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

364- Beirniadaeth Gwaith Llafar wedi'i recordio Bl. 10+

Beirniad – Enfys Thomas

Siomedig oedd y ffaith mai dim ond tair ymgais ddaeth i law. Roedd cyfle yma i fanteisio ar y testun (sef 'Gobeithion') i ymarfer ar gyfer yr elfen pâr/grŵp yr arholiad llafar TGAU a Safon Uwch.

Daw'r recordiadau o ddwy ysgol ac mi hoffwn ddiolch i'r dysgwyr am gyflwyno'r gwaith ac i'r athrawon hefyd am eu hanogaeth.

Cyflwyniadau unigol gafwyd gan Ysgol Pen y Dre tra roedd y ddau grŵp o Ysgol Dinas Brân yn cynnwys tri cymeriad ym mhob un.

Wrth i mi fynd ati i feirniadu'r gystadleuaeth roedd gen i feini prawf pendant: naturioldeb yr iaith, ynganu clir a phriodol, cyflwyniad bywiog gydag adnoddau ieithyddol amrywiol.

Gyda hyn mewn golwg, roeddwn i'n teimlo bod cyflwyniadau unigol Ysgol Pen y Bryn yn ei gwneud yn anodd i ateb pob un o'r meini prawf. e.e. Roedd hi'n amhosibl arddangos y gallu i holi ac ateb cwestiynau, cytuno ac anghytuno, holi barn eraill, cyfathrebu'n naturiol. Fodd bynnag, roedd yr ynganu a'r goslefu'n glir ar y cyfan a'r cynnwys yn eitha diddorol.

Roedd Grŵp Cyntaf ac Ail Grŵp Ysgol Dinas Brân yn defnyddio'r un sript a honno'n un gwreiddiol a phwrpasol. Oherwydd bod yr ynganu'n rhagori a'r perfformiad ei hun felly'n well ac yn fwy naturiol gydag ymgais i wneud y cyflwyniad yn fywiog mewn manau mae'r WOBR GYNTAF yn mynd i Grŵp Cyntaf Ysgol Dinas Brân, yr AIL WOBR yn mynd i Ysgol Pen y Dre a'r DRYDYDD WOBR yn mynd i Ail Grŵp Ysgol Dinas Brân a fyddai wedi elwa o ychydig mwy o amser i fynd i'r afael â'r sript yn fy marn i.



Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

Gobeithio bydd pob un o'r cystadleuwyr hyn yn dal ati i ddefnyddio'r Gymraeg yn y dyfodol. Pob hwyl iddynt.

1af - Grŵp Dinas Bran 1

2il - Grŵp Pen y Dre

3ydd - Grŵp Dinas Bran 2